I'w anfon at ymgeiswyr

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
ABERYSTWYTH
Ceredigion
SY23 3BU

Amodau Cytundeb Benthyca

Yn y nodiadau hyn mae 'adran fenthyca' yn golygu yr adran honno yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) sydd â gofal am y gwrthrych neu wrthrychau y dymunir eu benthyca ar gyfer arddangosfa.

1. Trefn gweithredu benthyciad

1.1 Dylid cyfeirio unrhyw ohebiaeth ynghylch benthyciadau yn y lle cyntaf at bennaeth yr adran fenthyca, gyda chopi yn mynd at y Swyddog Arddangosfeydd.

1.2 Fel rheol rhaid gwneud ceisiadau am fenthyca o leiaf chwe mis cyn dyddiad agor arddangosfa.

1.3 Rhaid i geisiadau cychwynnol am fenthyca gynnwys teitl yr arddangosfa, lleoliadau a dyddiadau, manylion am bwynt cysylltu, rhestr gyflawn o wrthrychau, y rheswm dros gynnwys y gwrthrychau, pwy sy'n gyfrifol am gludiant, yswiriant neu indemniad ac adroddiad ar y cyfleusterau.

1.4 Mae pob benthyciad yn ddibynnol ar sêl bendith y Llyfrgellydd neu Gyngor y Llyfrgell Genedlaethol, sydd â'r hawl i wrthod unrhyw fenthyciad heb ddatgelu'r rheswm.

2. Costau

2.1 Bydd disgwyl i fenthycwyr dalu am unrhyw driniaeth gadwraethol baratoadol, mowntio, fframio, gwydro, amodau arbennig ynglŷn â phacio neu gawellu a chostau cludo, yn cynnwys costau teithio, cynhaliaeth ac yswiriant unrhyw aelodau o staff LlGC hebryngol (gweler 7.2 - 7.4). Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn ymdrechu bob amser i hysbysu benthycwyr am unrhyw gostau ychwanegol cyn gynted ag y bo modd.

2.2 Rhoddir benthyciadau ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus yn unig, boed yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall. Rhaid i bob lleoliad ar gyfer arddangosfeydd teithiol gwrdd â'r safonau priodol ac mae'n bosibl y bydd gofyn i staff LlGC wneud archwiliad o'r cyfleusterau ar gost trefnwyr yr arddangosfa.

3. Diogelwch

3.1 Bydd y benthyciwr yn gyfrifol trwy'r adeg am sicrhau bod y gofal pennaf yn cael ei gymryd o'r defnyddiau a fenthycir.

3.2 Rhaid i leoliadau'r darpar fenthyciad feddu ar ddarpariaeth ddigonol parthed tân a diogelwch (gweler atodiad 1). Rhaid i bob lleoliad gael ei archwilio gan Ymgynghorydd Diogelwch yr MLA (Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau) Llundain, a bydd rhaid i'r lleoliad weithredu unrhyw argymhellion a wneir gan yr ymgynghorydd cyn trosglwyddo'r defnyddiau a fenthycir.

3.3 Dylai'r defnyddiau a fenthycir gael eu lleoli mewn adeilad cadarn gyda ffenestri, drysau a ffenestri to wedi'u diogelu. Fel arfer gofynnir am oruchwyliaeth bedair awr ar hugain, er y

gellir cymeradwyo systemau larwm canfod tresmaswyr (ynghyd â system synhwyro mwg/tân awtomatig) dan rai amgylchiadau.

3.4 Rhaid sicrhau peintiadau, lluniadau a gwrthrychau tebyg wrth waliau gyda *mirror plates* a sgriwiau diogelwch; os nad yw hynny'n bosibl rhaid cytuno ar ddewis arall gyda'r Adran Arddangosfeydd.

3.5 Ni cheir arddangos lluniau bach, h.y. llai na 450mm x 250mm (yn cynnwys ffrâm), yn agos at ffenestr, dihangfa dân neu fynedfa ac allanfa.

3.6 Rhaid i gasys arddangos y defnyddiau ar fenthyg gydymffurfio ag argymhellion yr Ymgynghorydd Diogelwch a rhaid iddynt fod ynghlo trwy gydol cyfnod yr arddangosfa, oddieithr mewn achos o wir argyfwng lle bo'r eitem ar risg (gweler hefyd 6.3). Gofynnir i'r benthyciwr ddarparu manylion am gynllun ac adeiladwaith y casys arddangos.

4. Amgylchedd & Arddangos

4.1 O dro i dro mae'n bosibl y bydd yr adran fenthyca yn galw am amodau arbennig ar gyfer arddangos, yn enwedig ynglŷn â goleuo ac awyrgylch. Rhaid i'r benthyciwr ddarparu amddiffyniad digonol rhag peryglon megis llifogydd, tân, lefelau gormodol o olau neu ymbelydredd niweidiol, eithafion lleithder a thymheredd cymharol, pla o bryfed a llygredd. Er gwybodaeth, mae'r amodau amgylcheddol a argymhellir fel a ganlyn:

i) Peintiadau Olew: 18-20°c, 55% (+/- 5%) RH, 150-200 *lux.*
ii) Gwaith ar bapur (yn cynnwys dyfrlliwiau): 20°c (+/- 1°c), 50% (+21/2) RH, 50 *lux*.
iii) Llawysgrifau: 18°c (+/- 1°c), 50% (+/- 5%) RH, 50 *lux*.

4.2 Ni ddylid byth gosod eitemau ar fenthyg yn agos at ffynonellau gwres, oerfel neu gerrynt o aer cryf (e.e. gwresogydd, lle tân, dadleithydd, allanfa na mynedfa system dymheru).

4.3 Ni chaniateir ysmygu yn y mannau lle'r arddangosir neu lle y cedwir defnyddiau ar fenthyg. Ni chaniateir cymryd bwyd na diod i'r ardal sy'n cynnwys y defnyddiau ar fenthyg ac eithrio o dan drefniadau a gymeradwywyd gan yr Adran Arddangos (gweler atodiad 2).

4.4 Rhaid diogelu peintiadau di-wydr a defnyddiau bregus neu sensitif gyda rhaff neu rwystr o leiaf 1 medr o'r arddangosion.

4.5 Rhaid arddangos llawysgrifau a deunydd tebyg ar gynheiliaid a ddarperir gan LlGC.

5. Yswiriant / Indemniad

5.1 Rhaid yswirio pob eitem ar fenthyg rhag 'pob risg' ar sail *nail to nail* .

5.2 Bydd yr adran fenthyca yn darparu prisiant ar yr eitemau at bwrpas yswiriant. Mae LlGC yn cadw'r hawl i ddiwygio prisiant unrhyw eitem ar unrhyw adeg, er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau yng ngwerth y farchnad ar arteffactau diwylliannol.

5.3 Fel arfer bydd benthyciadau i amgueddfeydd/orielau o fewn y DU wedi eu gwarantu rhag perygl trwy Gynllun Indemniad y Llywodraeth (o dan y Ddeddf Dreftadaeth Genedlaethol), lle y bydd gofyn i'r benthyciwr ddarparu prawf o warant yswiriant 'atebolrwydd lleiaf' ar gyfer benthyciadau. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn disgwyl i'r benthyciwr drefnu naill ai Indemniad y Llywodraeth neu yswiriant masnachol i warantu'r benthyciad.

5.4 Rhaid derbyn nodyn yswiriant neu brawf tebyg o yswiriant sy'n dderbyniol gan LlGC o leiaf bythefnos cyn cludo'r eitemau a fenthycir.

5.5 Fel arfer bydd Indemniadau gan Lywodraeth Dramor yn cael eu hystyried os bydd manylion yr indemniad yn cyrraedd LlGC i'w cymeradwyo ymhell cyn rhyddhau'r gwrthrychau.

6. Archwiliad

6.1 Archwilir pob darpar fenthyciad i bennu eu haddasrwydd i deithio. Paratoir adroddiad ar gyflwr pob eitem a fydd, o bosib, yn nodi anghenion pacio ac amgylcheddol er arddangos y benthyciad yn ddiogel.

6.2 Rhaid i'r benthyciwr adrodd ar unrhyw newidiadau yng nghyflwr y benthyciad ar unwaith, gydag adroddiad ysgrifenedig i'w anfon o fewn 24 awr.

6.3 Rhaid peidio ag ymyrryd ag eitemau ar fenthyg; ni chaniateir i'r benthyciwr ddat/ail fowntio, dat/ail fframio, ymgymryd â chadwraeth fewnol na thriniaeth ddianghenraid. Yr unig eithriad fyddai mewn achos o wir argyfwng lle bo'r eitem ei hun mewn perygl, pryd bydd angen gwneud hynny ym mhresenoldeb gwarchodwr cymwysedig. Mewn achos felly rhaid i'r benthyciwr ofyn am ganiatâd LlGC yn y lle cyntaf.

7. Cludiant

7.1 Rhaid i'r holl drefniadau ar gyfer pacio a chludo lynu wrth ganllawiau'r Ymgynghorydd Diogelwch a chael eu cymeradwyo gan LlGC (gweler atodiad 3).

7.2 Rhaid i'r benthyciwr dalu costau cludiant a phacio. Mae LlGC yn cadw'r hawl i gludo a gosod yr eitemau gan ddefnyddio ei hadnoddau ei hun ar gost y benthyciwr.

7.3 Bydd pob benthyciad yn cael ei bacio gan yr Adran Arddangosfeydd, gydag adroddiad cyflwr yn amgaeedig. Rhaid dychwelyd pob benthyciad wedi ei baratoi ar gyfer y siwrnai gan ddefnyddio'r deunydd a ddarparwyd a'i bacio yn yr un modd ag y'i paciwyd i gychwyn.

7.4 Weithiau bydd LlGC am i un neu fwy o'i staff gyd-deithio â'r defnyddiau a fenthycir ar unrhyw/bob cam o'r daith ac i osod yr eitem(au) yn yr arddangosfa neu ei thynnu/eu tynnu oddi yno. Telir costau teithio a chynhaliaeth y tywysydd gan y benthyciwr.

8. Ffotograffiaeth

8.1 Fel arfer caniateir atgynhyrchu defnyddiau a fenthycir at bwrpas hysbysebu ar yr amod na fydd hynny'n golygu trin y defnyddiau nac agor fframiau na chasys arddangos, a bod rheoliadau hawlfraint yn cael eu cadw (gweler hefyd 8.2).

8.2 Ni chaniateir tynnu llun o'r benthyciad, gan y benthyciwr na'r cyhoedd, heb ganiatâd LlGC ymlaen llaw. Pan na chaniateir tynnu llun, mae'n bosibl y gall y Llyfrgell ddarparu lluniau ar gyfer hysbysebu neu gynhyrchu catalog pan wneir cais.

8.3 Teitl cywir y berchenogaeth yw 'Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth', a rhaid ei chydnabod ar gapsiynau a deunydd hysbysebu.

9. Derbyn yr amodau

9.1 Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ac arwyddo ffurflen benthyciad swyddogol a ddarperir gan yr Adran Arddangosfeydd, yn derbyn yr amodau ar gyfer benthyciadau, ynghyd ag unrhyw amodau eraill y gellid fod wedi eu gosod yn arbennig gan yr adran fenthyca.

9.2 Rhaid hysbysu'r Adran Arddangosfeydd ar unwaith o unrhyw newidiadau i ddyddiadau arddangosfa neu unrhyw fwriad i gau dros dro y sefydliad lle cedwir y defnyddiau ar fenthyg.

9.3 Mae LlGC yn cydnabod y gellir canslo benthyciad am resymau dilys, ond gall LlGC godi tâl ar y benthyciwr am unrhyw gostau cadwraethol neu gostau eraill a gafwyd unwaith i'r datganiad gael ei arwyddo a'i ddychwelyd.

9.4 Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl benthyciad ar unrhyw adeg. Heblaw hynny, ar wahân i delerau'r benthyciad, rhaid i'r benthyciwr ildio unrhyw un neu'r cyfan o'r eitemau a fenthyciwyd unrhyw bryd ar gais LlGC.

9.5 Mae'r benthyciwr yn cytuno nad oes unrhyw achos rhesymol i gredu fod unrhyw wrthrych a gynhwysir yn yr arddangosfa lle caiff y gwrthrychau eu harddangos, wedi ei ddwyn, ei allforio neu ei fewnforio'n anghyfreithlon o wlad tarddiad y gwrthrych. Gwelwch *UNESCO Convention on the Means of Prohibiting and Preventing the Illicit Import, Export and Transfer of Ownership of Cultural Property.*

Cytunaf i'r amodau benthyg uchod:

Arwyddwyd _____

CWBLHEWCH MEWN LLYTHRENNAU BRAS:

Enw _____

Teitl _____

Cyfeiriad _____

_____

Ymholiadau a gohebiaeth:

Swyddog Arddangosfeydd
Is-Adran Rhaglenni Cyhoeddus
Adran Gwasanaethau Cyhoeddus
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
ABERYSTWYTH
Ceredigion
SY23 3BU

Ffôn: +44 (0)1970 632973
Ffacs: +44 (0)1970 632882

jmw@llgc.org.uk

Atodiad 1

AMODAU DIOGELWCH CYFFREDINOL AC AMODAU AMGYLCHEDDOL SY'N BERTHNASOL DAN GYNLLUN INDEMNIAD Y LLYWODRAETH

Deddf Dreftadaeth Genedlaethol 1980, adran 16

1. Bydd y benthyciwr yn gyfrifol drwy'r amser am sicrhau bod y gofal gorau posibl yn cael ei gymryd o'r defnyddiau sy'n destun yr indemniad.

2. Rhaid i'r defnyddiau a indemniwyd gael eu lletya mewn adeilad cadarn gyda ffenestri, drysau a ffenestri to hollol ddiogel. Yn ogystal, rhaid i'r adeilad ddarparu rheolaeth addas ar gyfer y defnyddiau a indemniwyd.

3. Rhaid i'r adeilad cyfan feddu ar system synhwyrydd tân awtomatig a osodwyd gan gwmni gosod larwm a gymeradwyir gan NACOSS (National Approval Council for Security Systems) ac sy'n cael ei gynnal yn flynyddol a'i gadw mewn cyflwr gweithredol da.

4. Yn ystod y nos, neu pan fydd yr adeilad ar gau neu heb fod yn cael ei ddefnyddio'n, dylai fod naill ai lefel y cytunwyd arno o warchodaeth nos gan berson(au) diogelwch neu system fodern o larwm canfod tresmaswyr sy'n gwarchod pob mynediad posibl i'r adeilad. Dylai'r system larwm gael ei gosod gan gwmni larwm a gymeradwywyd gan NACOSS, ei chynnal yn flynyddol a'i chadw mewn cyflwr gweithredol da.

5. Rhaid bod y systemau canfod tresmaswyr a synhwyro tân wedi eu cysylltu gan ddyfais anfon neges a fonitrir gyda chanolfan derbyn rhybudd neu'r gwasanaethau brys, oni bai eu bod yn cael eu monitro'n fewnol trwy'r amser gan bersonél diogelwch.

6. Os, o ganlyniad i alwadau ffug, bydd ymateb yr heddlu i system datgelu tresmasiad yn cael ei israddio, neu ei ddiddymu, neu os bydd toriad sy'n gwneud y system yn aneffeithiol, neu os na ellir ailosod y system ar unwaith, yna rhaid cyflwyno gwarchodaeth gan bersonél hyfforddedig hyd nes y gellir adfer ymateb yr heddlu, atgyweirio'r system neu ei hailosod.

7. Rhaid cynnal yr amodau amgylcheddol 24-awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos trwy gydol cyfnod y benthyca o'r cyfnod pan gyrhaedda'r defnyddiau a indemniwyd hyd nes y byddant yn gadael lleoliad y benthyca.

8. Dylid monitro lleithder cymharol a lefelau golau trwy gydol cyfnod y benthyca yn yr ardal sy'n cynnwys y defnyddiau a indemniwyd.

9. Rhaid cysylltu peintiadau, lluniadau a gwrthrychau tebyg wrth waliau gyda *mirror plates* a sgriwiau diogelwch neu, os nad yw hynny'n bosibl am ryw reswm, rhaid cytuno gyda'r Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd ar ddewis arall sy'n dderbyniol.

10. Ni cheir arddangos lluniau bach, h.y. llai na 450mm x 250mm (yn cynnwys ffrâm), yn agos at ffenestr, dihangfa tân neu fynedfa ac allanfa.

11. Rhaid diogelu peintiadau di-wydr, defnyddiau bregus neu sensitif gyda rhaff neu rwystr o leiaf 1 medr o'r arddangosion neu gytuno ar ddewis arall derbyniol gyda'r Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd a'r Ymgynghorydd Amgylcheddol.

12. Rhaid arddangos gwrthrychau bychain cludadwy mewn casys arddangos cloëdig a dylid eu ffitio â gwydriad laminedig gwrth-ysbeiliwr sy'n cwrdd â Safon Brydeinig BS 5544. Os yw'r

defnyddiau'n cynnwys aur, arian, gemwaith neu eitemau sy'n arbennig o werthfawr, rhaid ffitio'r casys â dyfeisiau larwm. Rhaid sicrhau'r casys mewn modd sy'n gymeradwy gan yr Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd.

13. Rhaid arddangos yr holl ddefnyddiau a indemniwyd fel y gellir eu harolygu gan bersonél hyfforddedig. Fel rheol bydd hyn yn golygu un person i bob ystafell oni bai bod dewis arall derbyniol yn cael ei gytuno gyda'r Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd.

14. Rhaid lleoli staff gwarchodol neu gymwys yn barhaol yn yr ystafelloedd arddangos yn ystod y cyfnod pan gaiff y cyhoedd fynediad a rhaid gwneud trefniadau priodol i'w rhyddhau ar gyfer lluniaeth a dibenion eraill. Rhaid iddynt ganolbwyntio ar ddiogelu a gwarchod y defnyddiau a arddangosir drwy'r adeg.

15. Pan nad yw'n bosibl trefnu bod yr ardal(oedd) arddangos sy'n cynnwys y defnyddiau a indemniwyd yn cael ei/eu harolygu'n briodol, rhaid ei chau/eu cau i'r cyhoedd.

16. Rhaid sefydlu cynllun o ymarfer sy'n gyfarwydd i bob aelod o'r staff, i gwrdd â phob argyfwng.

17. Dylid llunio Cynllun Argyfwng a'i ddiweddaru'n gyson i ymdrin ag argyfyngau megis: tân, mwg, dŵr yn llifo o danc, piben neu offer, lladrad, dwyn, fandaliaeth, storm, ffrwydrad, gweithred gan derfysgwr, gweithred wleidyddol, llifogydd, terfysg, cynnwrf sifil, ymosodiad gan bla o bryfed, daeargryn, gwrthdrawiad gan awyren neu gerbyd arall.

18. Rhaid bod gan staff gwarchodol rhyw fath o ddyfais i fedru hysbysu aelodau eraill o'r staff fod sefyllfa o argyfwng.

19. Pan gynhelir cyfarfodydd, achlysuron neu ddigwyddiadau eraill yn yr ardaloedd sy'n cynnwys defnyddiau a indemniwyd, rhaid ystyried y lefel briodol o oruchwyliaeth.

20. Ni chaniateir cymryd bwyd na diod i'r ardal sy'n cynnwys y defnyddiau a indemniwyd ac eithrio o dan drefniadau a gymeradwywyd gan yr Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd ac Ymgynghorydd Amgylcheddol Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau.

21. Ni chaniateir ysmygu ar unrhyw adeg.

22. Rhaid i drefniadau ar gyfer agoriadau ffurfiol, arddangosiadau preifat, partïon staff a digwyddiadau ac achlysuron cyffelyb, ac yn y blaen, gydymffurfio â'r cyfan o'r amodau uchod.

A Mewn achos o golled neu ddifrod yn sgil methiant i gadw at yr amodau penodedig bydd y Cynulliad â'r hawl i ymlid neu setlo achos yn enw'r perchennog neu'r sawl sy'n rhoi'r defnyddiau ar fenthyg, yn erbyn y benthyciwr neu drydydd parti neu i erlyn yn enw'r perchennog. Bydd gan y Cynulliad yr hawl i weithredu' n llawn i drin unrhyw achos neu i setlo unrhyw gais a rhydd y perchennog bob gwybodaeth a chynhorthwy y bydd y Cynulliad yn gofyn amdanynt.

B Yr amodau hyn yw gofynion lleiaf posibl Cynllun Indemniad y Llywodraeth, ond dylai benthycwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith fod ambell un sy'n gosod deunydd ar fenthyg yn gosod amodau ychwanegol y bydd angen i'r benthyciwr gwrdd â nhw er mwyn i'r benthyciad fynd yn ei flaen.

Atodiad 2

AMODAU BWYD A DIOD SY'N BERTHNASOL O DAN GYNLLUN INDEMNIAD Y LLYWODRAETH

Deddf Dreftadaeth Genedlaethol Act 1980, Adran 16

Nid yw'r amodau diogelwch ac amgylcheddol cyffredinol sy'n berthnasol i arddangosfeydd ac arddangosiadau o dan indemniad adran 16 yn caniatáu bwyd a diod yn yr ardal sy'n cynnwys y defnyddiau a indemniwyd, oni bai bod trefniadau yn cael eu cymeradwyo gan Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd ac Ymgynghorydd Amgylcheddol MLA.

Os nad yw'n bosibl, gydag arddangosiadau preifat neu ddigwyddiadau neu achlysuron eraill (megis agoriadau ffurfiol, arddangosiadau preifat, partïon staff), i weini bwyd a diod mewn ardaloedd heblaw'r rhai sy'n cynnwys y defnyddiau a indemniwyd, rhaid ymgynghori â'r Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd ac mae'r telerau a ganlyn yn debyg o fod yn gymwys:

1. Gorfodaeth lem ar y gwaharddiad ar ysmygu.

2. Bwyd a diod i'w paratoi a'u gweini mewn ardal nad yw'n cynnwys defnyddiau a indemniwyd. Ni cheir defnyddio offer cynhesu nag offer sy'n cynhyrchu stêm yn yr ardal sy'n cynnwys defnyddiau a indemniwyd.

3. Rhaid osgoi gweini gwin coch yn yr ardal sy'n cynnwys defnyddiau a indemniwyd ac sy'n di-wydr neu heb fod mewn cas.

4. Rhoddir sylw manwl i'r gwaith o lanhau er mwyn sicrhau bod gweddillion y bwyd a diod yn cael eu clirio. Dylai archwiliadau priodol sicrhau nad yw defnyddiau glanhau cemegol neu ormodedd o ddŵr yn effeithio er gwaeth ar sefydlogrwydd yr amgylchedd neu gyrydoledd yr awyrgylch nesaf at y defnyddiau a indemniwyd.

5. Lle bo'n ymarferol, mae gofyn gosod bariau addas er mwyn rhwystro mynediad agos at arddangosion di-wydr, bregus neu sensitif. Rhaid i rwystrau o'r fath fod o leiaf un medr o'r gwrthrych er mwyn darparu ardal ddi-haint hydrin.

6. Lleoli staff digonol ar ddyletswydd archwilio ymhob ardal arddangos sy'n cynnwys deunydd a indemniwyd yn arbennig lle nad yw'n bosibl gosod rhwystrau.

Os gwneir trefniadau sy'n ymgorffori'r uchod, ynghyd ag unrhyw fesurau ychwanegol y gofyn Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau amdanynt, bydd indemniad adran 16 yn parhau'n ddilys. Os, er hynny, y bydd unrhyw amheuon ynglŷn â threfniadau neu lle teimlir bod adran 16 yn cael ei heffeithio, efallai, neu fod ymofyn am drefniadau gwahanol, rhaid ymgynghori ag Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd a'r Ymgynghorydd Amgylcheddol.

Atodiad 3

AMODAU CLUDO CYFFREDINOL SY'N BERTHNASOL O DAN GYNLLUN INDEMNIAD Y LLYWODRAETH

Deddf Dreftadaeth Genedlaethol 1980, adran 16

1. Rhaid i unrhyw gwmni cludo a ddefnyddir i symud y gwrthrych(au) fod â phrofiad o gludo arteffactau bregus a gwerthfawr a chyda gweithwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn trin y fath ddefnyddiau ac yn abl i gwrdd â'r amodau isod ac i gadarnhau hyn ar bapur.

2. Pan fydd gwrthrych(au) yn cael eu danfon neu eu derbyn o dramor, rhaid i'r cwmni fod â'r gallu a'r profiad perthnasol i fedru trin llwythi o ddefnyddiau gwerthfawr a bregus. Rhaid i staff y cwmni feddu ar brofiad o ddelio â dulliau gweithredu mewn meysydd awyr a phorthladdoedd ynghyd â'r holl ddogfennaeth angenrheidiol.

3. Rhaid i'r gwaith o symud, pacio, dadbacio a chludo'r defnyddiau ar fenthyg gael ei oruchwylio gan aelodau hŷn o'r cwmni cludo mewn ymgynghoriad â'r sawl sy'n rhoi'r defnyddiau ar fenthyg a/neu fenthyciwr y defnyddiau.

4. Rhaid i unrhyw gerbyd a ddefnyddir i symud defnyddiau a indemniwyd, boed yn eiddo i gwmni cludo neu'r benthyciwr neu'r sawl sy'n rhoi'r defnyddiau ar fenthyg, gydymffurfio â'r manylion ym mharagraff 5 i 10 isod.

5. Fel arfer dylai'r cerbydau a ddefnyddir fod yn faniau caeedig (h.y. gydag ochrau a tho caled) gydag adran llwytho heb ffenestr ac wedi ei gwahanu oddi wrth gaban y gyrrwr. Dylai pob cerbyd feddu ar offer cloi o safon uchel. Mi all fod galw am gyfleusterau cloi ychwanegol, megis cloeau clwt cyplog caeedig. Rhaid sicrhau unrhyw rwystrau neu ddyfeisiadau gosod allanol gyda sgriwiau cuddiedig neu *non-return*, neu wedi eu weldio neu eu rhybedu i'w lle.

6. Dylai'r cerbydau ddarparu amddiffyniad addas rhag dirgryniad ac ysgytiad ac eithafion lleithder cymharol a hinsawdd ar gyfer defnyddiau gwerthfawr a bregus. Mae'n bosib y bydd galw am hongiad *Air-ride* ac offer rheoli hinsawdd mewn amgylchiadau priodol. Dylid monitro'r hinsawdd amgylcheddol.

7. Dylai'r cerbydau a'u criw feddu ar ddulliau addas o gyfathrebu megis ffonau symudol sefydlog a/neu ffonau radio symudol ar gyfer monitro'r daith ac mewn argyfwng.

8. Dylid cadw allweddi'r adran nwyddau ar wahân i allweddi'r cerbyd. Mae amgylchiadau arbennig ar gyfer cludo tramor. Dylai trefniadau tramor fod o leiaf mor drwyadl â'r hyn a welir yn yr Amodau Cludo hyn. Dylech drafod trefniadau ar gyfer cludiant awyr neu dros fôr gydag Ymgynghorydd Diogelwch Amgueddfeydd os oes arnoch angen cyngor.

9. Gellir defnyddio cerbydau arall heblaw faniau caeedig mewn amgylchiadau priodol, e.e. i gludo eitemau eithriadol o fawr a fydd, efallai, yn galw am ddefnyddio lori agored gyda'r llwyth wedi ei gorchuddio'n briodol. Ar ben hynny, mae'n bosibl cludo llwythi bach neu eitemau unigol mewn car, fan fach, tacsi, trên neu yn yr awyr, a bwrw bod nifer digonol o dywyswyr yn bresennol.

10. Rhaid darparu offer diffodd tân, yn addas i'r llwyth, ymhob cerbyd a rhaid bod y criw â phrofiad o'i ddefnyddio.

11. Beth bynnag fo'r dull o gludo a ddefnyddir, mae cydymffurfio â'r amodau gweithredu a geir ym mharagraffau 12-19 yn ofynnol.

12. Rhaid i gerbyd gario dau yrrwr ar siwrnai hir neu un gyrrwr a hebryngwr ar siwrnai lai. Y criw i gynnwys pobl gyfrifol gyda phrofiad o drin llwythi gwerthfawr ac yn abl i ddelio'n effeithiol â sefyllfa o argyfwng.

13. Os bydd y gofod yn y cerbyd cludo yn gyfyng, neu lle bernir ei bod yn angenrheidiol er mwyn cadw golwg ar ddiogelwch, bydd angen i ail gerbyd hebryngol gael darpariaeth a chyfarpar cyfathrebu radio/ffôn symudol.

14. Dylai'r daith gael ei chynllunio'n ofalus a dylai'r criw a chyd-deithwyr hebryngol gario cyfeiriadau a rhifau ffôn y gwasanaethau brys.

15. Yn ddelfrydol, dylai'r siwrnai gael ei chwblhau mewn un daith.

16. Pan fydd angen arhosiad, rhaid gwneud trefniadau i letya'r cerbyd a/neu'r defnyddiau mewn adeilad diogel a amddiffynnir gan system canfod tresmaswyr a system larwm tân 24 awr neu dan arolygiaeth gyson.

17. Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, adael y cerbyd heb neb i ofalu amdano, hyd yn oed mewn argyfwng.

18. Efallai bod amgylchiadau arbennig i ambell gludiant tramor, ond ni ddylai'r trefniadau fod yn llai trwyadl na'r rhai a nodwyd uchod.

19. Dylai polisi 'dim ysmygu' effeithiol weithredu mewn perthynas ag ardaloedd sy'n cynnwys defnyddiau ar fenthyg.

A Mewn achos o golled neu ddifrod yn sgil methiant i gadw at yr amodau penodedig bydd y Cynulliad â'r hawl i ymlid neu setlo achos yn enw'r perchennog neu'r sawl sy'n rhoi'r defnyddiau ar fenthyg, yn erbyn y benthyciwr neu drydydd parti neu i erlyn yn enw'r perchennog. Bydd gan y Cynulliad yr hawl i weithredu' n llawn i drin unrhyw achos neu i setlo unrhyw gais a fe rydd y perchennog bob gwybodaeth a chynhorthwy y bydd y Cynulliad yn gofyn amdano.

B Yr amodau hyn yw gofynion lleiaf posibl Cynllun Indemniad y Llywodraeth, ond dylai benthycwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith fod ambell un sy'n gosod defnyddiau ar fenthyg yn gosod amodau ychwanegol y bydd angen i'r benthyciwr gwrdd â nhw er mwyn i'r benthyciad fynd yn ei flaen.